CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau'n Dysgu**

Dyddiad y Cyfarfod: **30 Tachwedd 2023**

Teitl: **Diweddariad ynghylch y ddarpariaeth Gofal Plant yn Llanbedr Pont Steffan**

Pwrpas yr adroddiad: **Rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau ynghylch cefnogi Gofal Plant digonol yn Llanbedr Pont Steffan**

Rheswm pam fod Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:
Gofynnodd y Pwyllgor Craffu am ddiweddariad ar ôl chwe mis ar y cynnydd wrth gefnogi Gofal Plant digonol yn Llanbedr Pont Steffan

Cefndir:

Roedd Adroddiad Cynnydd Blwyddyn 1 yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu ym mis Gorffennaf 2023 wedi tynnu sylw at y diffyg gofal plant sydd ar gael yn Llanbedr Pont Steffan. Roedd hyn yn bryder o ran cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ehangu'r hawl i ofal plant Dechrau'n Deg am 12.5 awr yr wythnos i blant dwy a thair oed yn y dref.

Yn dilyn y cytundeb i ehangu gofal plant wedi'i ariannu drwy raglen Dechrau'n Deg i blant dwy oed yng Nghymru, cynhaliodd Ceredigion ymarfer cwmpasu sylweddol i nodi'r ardaloedd ar gyfer ehangu. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddi'n fanwl yr amrywiol setiau data a thrafod gyda phartneriaid allweddol i nodi pa Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) i ehangu iddynt. Ar ôl cyflwyno cynllun busnes i Lywodraeth Cymru, cytunwyd i gynnwys yr Ardaloedd Cynnyrch canlynol yn y cynllun ehangach a ddechreuodd ym mis Ebrill 2023:

- Llanbedr Pont Steffan 1 a 2
- Tregaron
- Ceinewydd
- Lledrod
- Llangeitho
- Y Borth
- Ceulanamaesmawr.

Llambed yw'r unig dref heb Gylch Meithrin neu ddarpariaeth gofal plant sesiynol i blant dwy i bedair oed.

Ar hyn o bryd mae llawer o blant tair oed yn dechrau'r ysgol (bore yn unig) heb fod wedi mynychu unrhyw fath o ofal plant.

Y Sefyllfa Bresennol

Er bod LSOA 1 a 2 Llanbedr Pont Steffan wedi'u cymeradwyo ar gyfer yr ehangu, nid yw nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael yn ateb y galw felly nid oes modd i lawer o blant gael mynediad i ofal plant cymwys.

Mae gan Lambed un feithrinfa ddydd breifat gofrestredig ar gyfer 36 o blant, a 3 gwarchodwr plant sy'n cynnig 22 o leoedd. Mae'r holl ddarparwyr yn llawn ar hyn o bryd ac nid ydynt yn gallu derbyn rhagor o blant fyddai'n gymwys am y 12.5 awr yr wythnos o ofal plant a ariennir drwy Dechrau'n Deg.

Prif amcanion ehangu Dechrau'n Deg yw:

- *sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd;*
- *mynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd;*
- *cynyddu'r gwasanaethau gofal plant, a'r lleoedd a'r lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg a ddarperir.*

Mae gwaith ymchwil yn dweud wrthym fod gofal plant o safon yn creu mwy o fanteision hirdymor i'n plant ac yn dylanwadu'n fawr ar eu dyfodol mewn bywyd. Gall y gofal plant iawn fynd i'r afael â rhai o'r problemau sydd wedi ymsefydlu yn sgil amgylchiadau difreintiedig, gan gynnwys sgiliau lefel isel a iechyd gwael a fydd yn cymryd amser i'w goresgyn.

Mae gwaith ymchwil yn dangos bod plant sy'n mynychu lleoliadau blynyddoedd cynnar o safon uchel yn fwy annibynnol, yn canolbwyntio ar eu chwarae am gyfnodau hirach ac, wrth ddechrau yn yr ysgol, yn fwy cydweithredol ac wedi'u paratoi'n well ar gyfer yr heriau sydd o'u blaen.

Ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn raddol | LLYW.CYMRU

Ar hyn o bryd mae 19 o blant yn gymwys i gael gofal plant Dechrau'n Deg yn ardal Llanbedr Pont Steffan 1 a 2. Fodd bynnag, gall yr Awdurdod Lleol ond ariannu lleoedd ar gyfer 10 o blant am nad oes digon o leoedd gwag ar gael. Cynhaliwyd sgyrsiau ac ymholiadau cychwynnol gyda'r Feithrinfa Ddydd breifat ynghylch ehangu. Yn dilyn penderfyniad y Feithrinfa Ddydd i beidio ag ehangu ei gwasanaeth oherwydd ystyriaethau gyda'r safle, mae swyddogion Dechrau'n Deg wedi bod yn gweithio gyda Mudiad Meithrin i ymchwilio i'r potensial o sefydlu Cylch Meithrin newydd yn Llanbedr Pont Steffan.

Mae Swyddogion Datblygu Mudiad Meithrin wedi nodi unigolion i sefydlu Pwyllgor Gwirfoddol. Rôl y pwyllgor yw gweithredu fel y corff llywodraethu neu'r person cofrestredig gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Y pwyllgor sy'n gyfrifol ac yn atebol yn gyffredinol am y ddarpariaeth, nid y rheolwr nac unrhyw aelod o'r staff. Mae angen i'r Pwyllgor sicrhau eu bod yn

- Bodloni'r gofynion cyfreithiol i weithredu fel lleoliad gofal plant ac elusen gofrestredig
- Sicrhau bod systemau ariannol cadarn ar waith a bod y lleoliad yn gynaliadwy
- Bod cyfrinachedd yn cael ei barchu bob amser.

Mae wedi bod yn anodd dod o hyd i leoliad addas i gynnal Cylch Meithrin/ gofal plant sesiynol oherwydd yr angen i ddilyn rheoliadau Arolygiaeth Gofal Cymru / y Safonau

Gofynnol Cenedlaethol. Fodd bynnag, gwneir cynnydd erbyn hyn. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt i sefydlu Cylch naill ai yng nghwt y Sgowtiaid yn Llambed neu o bosib yn Ysgol Bro Pedr. Nod y Cylch fydd agor ym mis Ionawr fel lleoliad anghofrestredig i ddechrau, gan golygu y bydd plant ond yn gallu cael mynediad i'r ddarpariaeth am lai na dwy awr, gyda'r bwriad o gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru erbyn mis Ebrill 2024.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:
Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam
Naddo. Dyma ddiweddariad ar y cynnydd wrth gefnogi Gofal Plant digonol yn Llanbedr Pont Steffan yn dilyn cyflwyno Adroddiad Cynnydd Blwyddyn 1 yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant i'r Pwyllgor Craffu ym mis Gorffennaf.

Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:

Hirdymor:	Ddim yn berthnasol
Cydweithio:	Ddim yn berthnasol
Cynnwys:	Ddim yn berthnasol
Atal:	Ddim yn berthnasol
Integreiddio:	Ddim yn berthnasol

Argymhelliad:
Nid oes angen rhoi argymhellion. Rhoddir rhagor o ddiweddariadau i'r Pwyllgor Craffu fel rhan o Adroddiad Cynnydd Blwyddyn 2 yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant.

Rheswm dros y penderfyniad:
Nid oes angen penderfyniad – rhoddir diweddariad ar y cynnydd.

Enw Cyswllt: Carys Davies

Swyddogaeth: Rheolwr Strategaeth Gofal Plant

Dyddiad yr adroddiad: 6 Tachwedd 2023

Acronymau:
AGC - Arolygiaeth Gofal Cymru